

22 Ionawr 2024

Annwyl Mr Vickers

Ar 15 – 17 Ionawr 2024, cynhaliodd Alan Edwards AEF a thri arolygydd tîm ymweliad monitro a ganolbwyntiodd ar un argymhelliad o arolygiad craidd gwasanaethau addysg llywodraeth leol yr awdurdod lleol ym Mawrth 2022. Yr ymweliad hwn oedd ail ymweliad peilot y trefniadau ymweliadau monitro newydd. Ystyriodd y tîm gynnydd yn erbyn argymhelliad 1. Gwnaethoch chi a'r Cyfarwyddwr Addysg gytuno ar y cyd â'r ymweliad hwn. Mae crynodeb byr o'n canfyddiadau isod.

Argymhelliad 1 – Gwella deilliannau i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Strategol (Plant a Theuluoedd) wedi parhau i ddwyn y gyfarwyddiaeth addysg i gyfrif yn briodol am sicrhau gwelliannau i ansawdd y cymorth i ysgolion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn ysgolion uwchradd yr awdurdod.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi sicrhau a rhannu gweledigaeth glir ar gyfer gwella ysgolion a gwasanaethau. Yn sail i'r weledigaeth hon y mae disgwyliadau uchel a lefelau atebolrwydd uwch. Mae hyn wedi helpu i ddiffinio rolau a chyfrifoldebau swyddogion, ysgolion ac EAS wrth sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion.

Mae'r awdurdod lleol ac EAS wedi gweithio mewn partneriaeth yn briodol i adolygu trefniadau ar gyfer gwella ysgolion. O ganlyniad, mae gan ysgolion ddealltwriaeth gliriach erbyn hyn o rôl y gwasanaethau hyn o ran eu cefnogi. Mae'r awdurdod lleol yn cael gwybodaeth ddefnyddiol am waith ysgolion oddi wrth y consortiwm rhanbarthol. Mae hyn, ynghyd â phrosesau'r awdurdod ei hun, wedi helpu swyddogion i ddatblygu dealltwriaeth fwy trylwyr o gynnydd ysgolion. Yn benodol, mae trafodaethau'r 'Tîm o gwmpas yr ysgol' a thrafodaethau proffesiynol yn rhoi fforwm buddiol i ysgolion, yr awdurdod lleol ac EAS dargedu, monitro ac adolygu cymorth. Yn yr achosion gorau, mae adroddiadau ar ysgolion yn nodi cryfderau clir a meysydd clir i'w gwella, sy'n helpu swyddogion i gynllunio cymorth targedig i ysgolion. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae

rhai prosesau sicrhau ansawdd ac mae ansawdd adroddiadau'n amrywio'n ormodol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i werthuso effaith ei holl gymorth yn llawn.

Bellach, mae uwch arweinwyr yn yr awdurdod lleol yn dwyn EAS i gyfrif yn fwy effeithiol am eu gwaith, er enghraifft trwy gyfarfodydd partneriaeth â'r Grŵp Gwella Carlam. Yn ogystal, mae'r Grŵp Gwella Carlam yn galluogi uwch arweinwyr ac aelodau i ddwyn swyddogion ar bob lefel i gyfrif am effaith eu gwaith. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi gofyn am werthusiad cryfach o effaith y dysgu proffesiynol y mae EAS yn ei ddarparu.

Mae'r awdurdod lleol wedi parhau i gryfhau ei berthynas ag ysgolion, gan feithrin diwylliant o ymddiriedaeth a didwylledd. Mae penaethiaid yn teimlo'n fwyfwy hyderus i rannu eu safbwyntiau â'r awdurdod lleol ac mae hyn yn helpu swyddogion i addasu eu strategaethau cymorth. Megis dechrau datblygu y mae rhannu arfer effeithiol rhwng ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol yn blaenoriaethu gwella presenoldeb mewn ysgolion yn addas. Maent wedi datblygu strategaeth glir ac mae swyddogion yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n ddiwyd. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn Nhorfaen yn is nag yr oedd cyn y pandemig ac mae lefelau presenoldeb nifer bach o ysgolion yn destun pryder dirifol.

Ers yr arolygiad craidd, rydym wedi arolygu chwe ysgol gynradd, pum lleoliad nas cynhelir, un ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig yn Nhorfaen. Ni roddwyd yr un o'r ysgolion na'r lleoliadau hyn mewn unrhyw lefel gweithgarwch dilynol. Gofynnwyd i ddau leoliad nas cynhelir a dwy ysgol gynradd ddarparu astudiaethau achos o arfer effeithiol. Adeg yr arolygiad craidd, roedd dwy o ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol yn y categori mesurau arbennig. Tynnwyd un o'r ysgolion hyn o'r categori gweithgarwch dilynol yn Chwefror 2023 gan ei bod wedi gwneud gwelliannau digonol; mae'r llall yn y categori mesurau arbennig o hyd ar ôl cael ei rhoi yn y categori monitro gan Estyn yn 2015.

Mae'r awdurdod lleol a'r Prif Bartner Gwella Ysgolion wedi sefydlu cyfleoedd buddiol i swyddogion yr awdurdod lleol a Phartneriaid Gwella Ysgolion drafod a chytuno ar ofynion cymorth. Mae hyn yn helpu i gysoni gwaith y Partneriaid Gwella Ysgolion â blaenoriaethau'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cysylltiadau rhwng Partneriaid Gwella Ysgolion a rhai agweddau eraill ar y gwasanaethau addysg, er enghraifft anghenion dysgu ychwanegol a phresenoldeb.

Gobeithio bod y cyfle i fyfyrion'n gydweithredol ar eich gwaith yn ddefnyddiol. Bydd arolygydd cyswllt awdurdod lleol Torfaen yn parhau i ymgysylltu â'r awdurdod a byddwn yn cynnal ymweliadau monitro pellach yn nhymor yr haf 2024.

Yn gywir



Jassa Scott
Cyfarwyddwr Strategol